**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

08 Mai 2018

Annwyl Meri

BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)

Fel y gwyddoch, ar 21 Mawrth 2018, cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol ar egwyddorion cyffredinol y Bil Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru). Er na chytunwyd ar Benderfyniad Ariannol hyd yma, mae'r Bil wedi symud ymlaen i Gyfnod 2. Fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, rwyf ar hyn o bryd yn ystyried newidiadau posibl iddo.

Fel rhan o'r gwaith craffu a wnaed ar y Bil yng Nghyfnod 1, cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ei Adroddiad Cyfnod 1, gan wneud 19 o argymhellion. Dywed Argymhelliad 6:

> "Rydym yn argymell bod yr Aelod Cyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gryfhau'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau'n ymwneud â'r Gymraeg."

Rwyf wedi derbyn yr argymhelliad hwn ac wedi cytuno i ymgynghori â chi ynglŷn â sut i gyflawni'r nod hwn. Ar hyn o bryd, mae adran 71 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer y Gymraeg. Mae hefyd yn nodi amserlen ar gyfer cyhoeddi'r strategaeth hon, ac mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer unrhyw ddiwygiadau dilynol y penderfynir bod eu hangen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Sylwaf o'ch ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau eich bod o'r farn y dylid diwygio adran 71 er mwyn cynnwys gofynion penodol a chlir.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallwn gael eich barn ar y ffordd orau o gyflawni hyn. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech anfon eich cyngor ataf erbyn **dydd Gwener 29 Mehefin 2018.** Byddai hyn yn rhoi cyfle imi wneud penderfyniadau terfynol ynghylch argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Yn gywir

Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English*